

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Crynodeb o Fil

Bil Drafft Cymru

Ionawr 2014

Cynulliad
Cenedlaethol
Cymru

National
Assembly for
Wales



**Y Gwasanaeth
Ymchwil**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Mae'r Gwasanaeth Ymchwil yn darparu ymchwil a gwybodaeth arbenigol a ddiuedd er mwyn cefnogi Aelodau a phwyllgorau'r Cynulliad i gyflawni swyddogaethau craffu, deddfwriaethol a chynrychioliadol Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Mae briffiau gan Wasanaeth Ymchwil yn cael eu hysgrifennu ar gyfer Aelodau'r Cynulliad a'u staff. Mae'r awduron ar gael i drafod y papurau gydag Aelodau a'u staff ond nid yw'n bosibl rhoi cyngor i'r cyhoedd. Croesawn sylwadau ar ein briffiau; os oes gennych unrhyw sylwadau gallwch eu hanfon i'r cyfeiriad post neu e-bost isod.

Gellir cael gafael ar fersiwn electronig o'r papur ar safle'r Cynulliad Cenedlaethol yn:
www.cynulliadcymru.org/research

Mae copïau printiedig hefyd ar gael:

Y Gwasanaeth Ymchwil
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

E-bost: Research.Service@wales.gov.uk
Twitter: [@YmchwilCCC](https://twitter.com/YmchwilCCC)
Blog: pigion.wordpress.com

© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2013

Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difriol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Rhif ymholiad: 13/3344
Rhif dogfen: 14/003

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Crynodeb o Fil

Bil Drafft Cymru

Ionawr 2014

Alys Thomas

Cynulliad
Cenedlaethol
Cymru

National
Assembly for
Wales



Y Gwasanaeth
Ymchwil

Cynnwys

| | |
|---|-----------|
| 1. Cyflwyniad | 1 |
| 2. Cefndir | 2 |
| 2.1. Silk 1 | 2 |
| 2.2. Cynigion ynghylch trefniadau etholiadol | 5 |
| 2.2.1. Papur Gwyrdd ar drefniadau etholiadol y Cynulliad i'r dyfodol | 6 |
| 2.3. Cynigion eraill | 7 |
| 2.3.1. Llywodraeth Cymru | 7 |
| 2.3.2. Awdurdodau tai lleol: cyfyngiadau ar ddyled cyfrif refeniw tai | 8 |
| 2.3.3. Comisiwn y Gyfraith | 8 |
| 2.3.4. Prif Weinidog: dileu'r pŵer i ddynodi ar ôl diddymu'r Cynulliad..... | 9 |
| 3. Y Bil drafft | 9 |
| 4. Craffu cyn y broses ddeddfu | 17 |

Bil drafft Cymru

1. Cyflwyniad

Gosodwyd *Bil drafft Cymru*¹ ("y Bil drafft") yn y Senedd gan Lywodraeth y DU ar 18 Rhagfyr 2013. Caiff Biliau drafft yn San Steffan eu cyhoeddi gan yr adrannau sy'n eu noddi (Swyddfa Cymru yn yr achos hwn). Yn achlysurol, gallant fod yn destun craffu cyn deddfu yn un o bwyllgorau dethol Tŷ'r Cyffredin neu un o gydbwyllgorau Tŷ'r Cyffredin a Thŷ'r Arglwyddi. Bydd Pwyllgor Dethol ar Faterion Cymreig Tŷ'r Cyffredin yn craffu ar y Bil drafft cyn y broses ddeddfu.

Cyflwynodd Ysgrifennydd Gwladol Cymru ddatganiad ysgrifenedig ar y Bil drafft. Dywedodd:

Specifically, it will enable the Assembly to legislate about devolved taxes – a Welsh tax on transactions involving interests in land (replacing stamp duty land tax in Wales) and a Welsh tax on disposals to landfill (replacing landfill tax in Wales); it establishes a mechanism by which the Assembly can trigger a referendum in Wales on the question of whether a part of income tax in Wales should be devolved; and, subject to a vote in favour in a referendum, the Bill will enable the Assembly to set a Welsh rate of income tax, in the same way as the Scottish rate of income tax in Scotland.[...]

[...] The draft Bill also grants the Welsh Government new powers to borrow for capital expenditure and extends the circumstances in which it can borrow in the short term to manage its budget. These powers will enable the Welsh Government to borrow to invest in renewing Wales's infrastructure and support growth in the Welsh economy.

In addition, as I announced to the House in March, the draft Wales Bill sets out how we intend to implement important changes to elections to the National Assembly for Wales. The draft Bill extends Assembly terms permanently from four to five years, making it less likely that Assembly elections will coincide with Westminster parliamentary elections in future; it will remove the prohibition on candidates in Assembly elections standing in a constituency and on a regional list; and it will prohibit "double jobbing", by preventing MPs from also being Assembly Members.²

Mae'r Bil drafft hefyd yn cynnwys darpariaethau i wneud mân-newidiadau i setliad datganoli Cymru y mae Llywodraeth Cymru wedi cytuno arnynt. Mae'r rhain yn cynnwys newid enw Llywodraeth Cynulliad Cymru i "Llywodraeth Cymru"; sicrhau bod Trysorlys EM yn pennu terfyn benthycy cyfanredol ar gyfer Awdurdodau Tai Lleol yng Nghymru a bod Gweinidogion Cymru yn pennu terfynau ar gyfer pob Awdurdod Tai Lleol; a sicrhau y gall Comisiwn y Gyfraith roi cyngor a gwybodaeth i Weinidogion Cymru ar faterion datganoledig.

¹ [Bil drafft Cymru, CM 8773, Rhagfyr 2013 \[fel ar 18 Rhagfyr 2013\]](#)

² [GOV.uk, Swyddfa Cymru, Datganiad Ysgrifenedig gan Ysgrifennydd Gwladol Cymru, y Gwir Anrhydeddus David Jones AS, 18 Rhagfyr 2013 \[fel ar 18 Rhagfyr 2013\]](#)

Cyflwynodd y Prif Weinidog ddatganiad hefyd lle nododd y "bydd Llywodraeth Cymru yn astudio cynnwys y Bil drafft dros yr wythnosau nesaf, a bydd yn rhoi tystiolaeth yn ystod cyfnod yr Archwiliad Cyn-ddeddfwriaethol."³

2. Cefndir

2.1. *Silk 1*

Ar 19 Gorffennaf 2011, cyhoeddodd Ysgrifennydd Gwladol Cymru ar y pryd, sef y Gwir Anrhydeddus Cheryl Gillan AS y byddai Comisiwn annibynnol yn cael ei sefydlu i ystyried atebolrwydd ariannol Llywodraeth Cymru a Chynulliad Cenedlaethol Cymru.⁴

Gwnaed y cyhoeddiad ynghylch cadeirydd ac aelodaeth y Comisiwn ar 11 Hydref 2011.⁵ Caiff ei gadeirio gan Paul Silk, cyn-glerc Cynulliad Cenedlaethol Cymru (2001 i 2007) a chyn-glerc yn Nhŷ'r Cyffredin. Mae'r Comisiwn hefyd yn cynnwys pedwar aelod a enwebir gan y pleidiau gwleidyddol yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru, ynghyd â dau aelod annibynnol.

Mae cylch gorchwyl y Comisiwn fel a ganlyn:

Bydd Comisiwn annibynnol yn cael ei sefydlu i adolygu'r trefniadau ariannol a chyfansoddiadol presennol yng Nghymru. Bydd dwy ran i'w waith:

Rhan I: atebolrwydd ariannol

Adolygu'r achos dros ddatganoli pwerau cyllidol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac argymell pecyn o bwerau a fyddai'n gwella atebolrwydd ariannol y Cynulliad, sy'n cyd-fynd ag amcanion ariannol y Deyrnas Unedig ac sy'n debygol o gael eu cefnogi'n eang.

Rhan II: pwerau Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Adolygu pwerau Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar sail profiad ac argymell diwygiadau i'r trefniadau cyfansoddiadol presennol a fyddai'n galluogi Senedd y Deyrnas Unedig a Chynulliad Cenedlaethol Cymru i wasanaethu pobl Cymru yn well.

³ Datganiad Ysgrifenedig y Cabinet gan y Gwir Anrhydeddus Carwyn Jones AC, Prif Weinidog, *Cyhoeddi Bil drafft Cymru gan Lywodraeth y DU*, 18 Rhagfyr 2013 [fel ar 18 Rhagfyr 2013]

⁴ [Swyddfa Cymru, *Next Steps for Commission on Devolution in Wales outlined*, Datganiad i'r Wasg, 19 Gorffennaf 2011 \[fel ar 8 Tachwedd 2011\]](#)

⁵ [Swyddfa Cymru, *Commission on Devolution in Wales takes shape*, Datganiad i'r Wasg, 11 Hydref 2011 \[fel ar 8 Tachwedd 2011\]](#)

Wrth ymgymryd â Rhan I, dylai'r Comisiwn:

- ddarparu cyngor annibynnol ynghylch yr achos dros wella atebolrwydd ariannol Cynulliad Cenedlaethol Cymru gan gyd-fynd â fframwaith cyllidol a chyfansoddiadol y Deyrnas Unedig;
- ymgynghori'n eang ar becyn o bwerau cyllido a fyddai'n gwella atebolrwydd ariannol Cynulliad Cenedlaethol Cymru;
- gwneud argymhellion ynghylch a ellid datganoli pecyn o bwerau cyllidol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru a fyddai'n debygol o gael ei gefnogi'n eang; ac
- ystyried a gwneud argymhellion ynghylch y ffordd orau i fynd i'r afael â materion deddfwriaethol a'r materion gweithredu ymarferol sydd ynghlwm wrth ddatganoli pecyn o bwerau cyllidol, gan gynnwys cysondeb o fewn y Deyrnas Unedig.

Bydd Rhan I yn cael ei chwblhau cyn i'r gwaith ar gyfer Rhan II ddechrau

Wrth ymdrin â Rhan II, dylai'r Comisiwn:

- archwilio pwerau Cynulliad Cenedlaethol Cymru, ac yn benodol:
- y ffin rhwng yr hyn sydd wedi'i ddatganoli a'r hyn nas datganolwyd;
- a ddylid diwygio'r ffin ar hyn o bryd;
- unrhyw oblygiadau trawsffiniol i ddiwygiadau o'r fath;
- ymgynghori'n eang ar unrhyw ddiwygiadau arfaethedig i'r ffin bresennol;
- gwneud argymhellion ynghylch unrhyw ddiwygiadau i'r setliad sy'n debygol o gael eu cefnogi'n eang; ac
- ystyried a gwneud argymhellion ynghylch y ffordd orau i fynd i'r afael â'r materion deddfwriaethol a'r materion gweithredu ymarferol sydd ynghlwm wrth y diwygiadau hynny.

Ni wnaeth Comisiwn Silk yn ystyried, yn rhan I, gynigion Comisiwn Holtham ynghylch diwygio cyllido yng Nghymru, gan gynnwys pwerau benthyca presennol Gweinidogion Cymru, sy'n cael eu hystyried drwy **broses ddwyochrog ar wahân** y mae Llywodraeth y Deyrnas Unedig a Llywodraeth Cymru yn rhan ohoni.

Cyhoeddodd Comisiwn Silk ei adroddiad ar ran gyntaf ei gylch gwaith, *Grymuso a Chyfrifoldeb: Pwerau Ariannol i Gryfhau Cymru* ym mis Tachwedd 2012.⁶ Ar 5 Tachwedd 2013, aeth y Prif Weinidog a'r Dirprwy Brif Weinidog i'r Senedd i gyhoeddi bod Llywodraeth y DU wedi cytuno ar argymhellion allweddol ar ddatganoli gan Gomisiwn Silk.

⁶ [Comisiwn Silk, *Grymuso a Chyfrifoldeb: Pwerau Ariannol i Gryfhau Cymru*, Tachwedd 2012 \[fel ar 18 Rhagfyr 2013\]](#)

Ar 18 Tachwedd, cyhoeddodd Llywodraeth y DU *Grymuso a chyfrifoldeb: datganoli pwerau ariannol i Gymru*, sy'n rhoi mwy o gnawd ar y cyhoeddiad blaenorol.

Y prif bwyntiau yw:

- **Treth incwm**: yn amodol ar refferendwm yng Nghymru, byddai'r Cynulliad a Llywodraeth Cymru yn cael y pŵer i amrywio'r cyfraddau sylfaenol, uwch ac ychwanegol o dreth incwm i fyny neu i lawr. Byddai hyn yn golygu na fyddai 10 pwynt canran o bob cyfradd dreth yn y DU bellach yn ddyledus i Lywodraeth y DU, ond yn hytrach i Lywodraeth Cymru.
- **Treth dir y dreth stamp** a'r dreth tirlenwi i gael eu datganoli i'r Cynulliad, gyda swm cyfatebol yn cael ei dynnu o'r grant bloc.
- Bydd Llywodraeth y DU yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru i ddatganoli'r **ardrethi (busnes) annomestig** yn llawn. Er bod Gweinidogion Cymru eisoes yn pennu'r cyfraddau hyn yng Nghymru, o dan y trefniadau presennol nid yw'r reffeniw a gynhyrchir yn effeithio'n uniongyrchol ar lefel y cyllid sydd ar gael i Lywodraeth Cymru.
- Mae Llywodraeth y DU wedi derbyn mewn egwyddor y gallai Llywodraeth Cymru gael **pwerau benthycy cyfalaf** er mwyn buddsoddi mewn seilwaith, ar yr amod bod ffrwd annibynnol a phriodol o reffeniw ar gael i dalu'r costau benthycy.
- Felly, bydd Llywodraeth y DU yn caniatáu i Lywodraeth Cymru gael **rhywfaint o bwerau benthycy cyfalaf** ymlaen llaw, cyn i'r pwerau trethu llawn ddod i rym, er mwyn gwneud gwelliannau i'r M4.
- Pŵer i'r Cynulliad ddeddfu, gyda chytundeb Llywodraeth y DU, i gyflwyno **trethi newydd a chredydau treth cysylltiedig**.⁷

Ar 4 Rhagfyr 2013, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru bapur sefyllfa ynghylch ymateb Llywodraeth y DU.⁸ Ar y cyfan, mae'n croesawu ymateb Llywodraeth y DU, er ei fod yn nodi bod angen trafodaeth bellach gyda Llywodraeth y DU ynghylch rhai materion. Fodd bynnag, mynegodd siom ynghylch dau fater;

- Roedd Llywodraeth Cymru yn cefnogi argymhelliad Comisiwn Silk ynghylch treth incwm, sef datganoli **pwerau annibynnol i amrywio'r cyfraddau treth incwm**. Mae'n credu na fyddai'r pwerau mwy cyfyngedig i amrywio'r dreth incwm, a gynigir gan Lywodraeth y DU (un gyfradd dreth incwm Gymreig), yn rhoi'r un lefel o hyblygrwydd i Lywodraeth Cymru yn y dyfodol.

⁷ [GOV.uk, Grymuso a chyfrifoldeb: datganoli pwerau ariannol i Gymru, Ymateb Llywodraeth y DU, Rhagfyr 2013 \[fel ar 18 Rhagfyr 2013\]](#)

⁸ [Llywodraeth Cymru, Papur sefyllfa ar ymateb Llywodraeth y DU i Ran 1 Silk, Rhagfyr 2013 \[fel ar 18 Rhagfyr 2013\]](#)

- Mae Llywodraeth Cymru o'r farn bod Llywodraeth y DU wedi colli'r cyfle i helpu i wella economi Cymru drwy wrthod datganoli'r **Doll Teithwyr Awyr**.

2.2. *Cynigion ynghylch trefniadau etholiadol*

Nododd Araith y Frenhines 2013 y caiff deddfwriaeth ddrafft ei chyhoeddi ynghylch y trefniadau etholiadol ar gyfer Cynulliad Cenedlaethol Cymru.⁹ Nododd y ddogfen gysylltiedig y byddai'r Bil drafft yn cynnwys darpariaethau sy'n ymwneud â'r canlynol:

- newid trefn tymhorau'r Cynulliad **o dymhorau sefydlog pedair blynedd i dymhorau sefydlog pum mlynedd**, a hynny er mwyn lleihau'r tebygolrwydd y bydd etholiadau'r Cynulliad yn cyd-daro ag etholiadau seneddol;
- **gwrthdroi'r gwaharddiad ar ymgeisio deuol** er mwyn caniatáu i ymgeiswyr yn etholiadau'r Cynulliad gystadlu am sedd etholaeth a sefyll ar restr ranbarthol; a
- **gwahardd yr arfer o gyflawni dwy swydd**, gan atal Aelodau'r Cynulliad rhag bod yn Aelodau Seneddol hefyd.

Mae'r cyhoeddiad ynghylch *Bil drafft Cymru* arfaethedig yn dilyn datganiad ysgrifenedig a gyflwynwyd ar 12 Mawrth 2013 gan Ysgrifennydd Gwladol Cymru, y Gwir Anrhydeddus David Jones AS. Nododd y datganiad fod yr Ysgrifennydd Gwladol o blaid bwrw ymlaen â chynigion a oedd yn ymwneud â hyd tymhorau'r Cynulliad, ymgeiswyr deuol a mandadau lluosog:

First, **we will move the Assembly from four to five-year fixed terms**. The term of the current Assembly is, exceptionally, five years, but the Assembly is set to revert to four-year terms after the next Assembly elections in 2016. A permanent move to five-year terms would make a co-incidence between parliamentary and Assembly elections in 2020 (and every twenty years thereafter) less likely.

Second, **we will end the prohibition on candidates at Assembly elections standing in both a constituency and a region at the same time**. The Government believes that, in principle, candidates should not be barred from standing in a constituency and a region, and the current prohibition impacts disproportionately on smaller parties.

Third, **we will prohibit Assembly Members from simultaneously sitting as Members of the House of Commons**. The Government does not believe that one person can adequately serve two sets of constituents. **This prohibition would not apply to members of the House of Lords** [*Pwyslais y Gwasanaeth Ymchwil*].¹⁰

⁹ GOV.UK, [Datganiad llafar i'r Senedd: Araith y Frenhines 2013](#), 8 Mai 2013 [fel ar 8 Mai 2013]

¹⁰ [Dadleuon Tŷ'r Cyffredin 12 Mawrth 2013 c8WS](#)

O ran mandadau lluosog, dywedwyd hefyd fod yr Ysgrifennydd Gwladol wedi dweud, pe bai AC neu AS yn ennill etholiad i'r sefydliad arall, y byddai modd iddo wasanaethau yn y ddau sefydliad 'fwy na thebyg' am hyd at flwyddyn, gan ychwanegu:

If it were a relatively short period we would expect [there] would be a transitional period allowed so one person could leave one institution and go to the other ... We certainly don't want to stop anyone moving from one institution to the other but we don't think it's right that somebody should be elected with a view to sitting continuously in both bodies.¹¹

Mae rhagor o wybodaeth am, ac ymatebion i, gyhoeddiad yr Ysgrifennydd Gwladol ym mis Mawrth 2013, ar gael ym [Mhapur y Gwasanaeth Ymchwil: Newidiadau arfaethedig i drefniadau etholiadol y Cynulliad](#).

2.2.1. Papur Gwyrdd ar drefniadau etholiadol y Cynulliad i'r dyfodol

Nodwyd yr angen am Fil yn y maes hwn mewn ymateb i gynlluniau i leihau nifer yr ASau yng Nghymru o 40 i 30 erbyn yr Etholiad Cyffredinol nesaf yn y DU a phennu tymhorau seneddol yn Nhŷ'r Cyffredin yn bum mlynedd. Ar 21 Mai 2012, lansiodd y Gwir Anrhydeddus Cheryl Gillan AS, Ysgrifennydd Gwladol Cymru ar y pryd, ymgynghoriad 12 wythnos o hyd ar y [Papur Gwyrdd ar drefniadau etholiadol y Cynulliad i'r dyfodol](#). Yn ôl yr hysbysiad i'r wasg a oedd yn cyd-fynd ag ef, mae'r Papur Gwyrdd yn:

amlinellu opsiynau a chynigion y Llywodraeth ar gyfer newidiadau i gyfansoddiad y Cynulliad, yn cynnwys nifer etholaethau'r Cynulliad, hyd tymhorau'r Cynulliad, hawl ymgeiswyr i sefyll yn yr un etholiad mewn etholaeth Cynulliad a rhanbarth a hawl Aelodau'r Cynulliad i eistedd yn Senedd San Steffan hefyd ar yr un pryd.¹²

Gofynnodd y Papur Gwyrdd yn benodol am farn ar gynigion sy'n ymwneud â: newid etholaethau'r Cynulliad, hyd tymhorau'r Cynulliad; ymgeisio deul; a mandadau lluosog.

Fodd bynnag, yn dilyn y penderfyniad i ohirio'r adolygiad a gynlluniwyd o etholaethau seneddol, cadarnhaodd yr Ysgrifennydd Gwladol na fyddai Llywodraeth y DU yn bwrw ymlaen â'r newidiadau arfaethedig i etholaethau'r Cynulliad:

As a result of the Electoral Registration and Administration Act 2013, the four UK Boundary Commissions will now report in 2018 on their recommendations for new parliamentary constituencies. The boundaries of parliamentary and Assembly constituencies will remain the same until then, and there is no longer an immediate need to re-establish the link between the two sets of constituencies. **The Government does not therefore intend to proceed**

¹¹ Wales Online, [Ban lifted on AMs standing for both constituency and regional seat](#), 12 Mawrth 2013 [fel ar 9 Mai 2013]

¹² Swyddfa Cymru, [Papur Gwyrdd ar drefniadau etholiadol Cynulliad Cenedlaethol Cymru i'r dyfodol](#), Mai 2012, tudalen 8 [fel ar 9 Mai 2013]

with the changes to Assembly constituencies proposed in the Green Paper [*Pwyslais y Gwasanaeth Ymchwil*].¹³

Nid yw **etholiadau'r Cynulliad** o fewn cwmpas pwerau deddfu'r Cynulliad o dan Atodlen 7 i *Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006*.¹⁴

Dywedodd y Prif Weinidog mewn dadl ar y Papur Gwyrdd yn y Cynulliad ar 12 Mehefin 2012:

Nid wyf am fod yn gwbl negyddol am y Papur Gwyrdd. Rwy'n croesawu, er enghraifft, yr ymgynghoriad ar a ddylai'r Cynulliad gael tymhorau o bum mlynedd. Y farn gyffredinol yn y Siambr yw y dylid osgoi cyd-daro ag etholiadau cyffredinol y DU.¹⁵

Trafodwyd y Papur Gwyrdd hefyd yn yr Uwch-bwyllgor Cymreig yn Nhŷ'r Arglwyddi ar 18 Mehefin 2012¹⁶ ac yn Neuadd San Steffan yn Nhŷ'r Cyffredin ar 3 Gorffennaf 2012.¹⁷

Daeth ymgynghoriad Swyddfa Cymru ar y Papur Gwyrdd i ben ar 13 Awst 2012. Cafwyd cyfanswm o 68 o ymatebion a chyhoeddwyd crynodeb ohonynt gan Swyddfa Cymru ym mis Tachwedd 2012.¹⁸ Cafwyd ymatebion i'r ymgynghoriad gan Lywodraeth Cymru, y pedair plaid yn y Cynulliad, ymateb ar wahân gan Geidwadwyr Cymru, gan dri Aelod Seneddol¹⁹ sy'n cynrychioli etholaethau yng Nghymru a chan 11 o Aelodau'r Cynulliad, ymhlith eraill.²⁰

2.3. Cynigion eraill

2.3.1. Llywodraeth Cymru

Mae'r term "Llywodraeth Cymru" wedi'i ddefnyddio gan Lywodraeth Cymru ei hun ers etholiad y Cynulliad yn 2011. Fodd bynnag, mae *Deddf Llywodraeth Cymru 2006* yn parhau i gyfeirio at "Llywodraeth Cynulliad Cymru" i gyfeirio at Weinidogion Cymru, Dirprwy Weinidogion Cymru a'r Cwnsler Cyffredinol gyda'i gilydd. Bydd cynigion yn y Bil drafft yn newid hyn i alinio'r enw statudol â'r enw answyddogol, sef "Llywodraeth Cymru". Nid yw'r Bil yn newid enwau statudol eraill sydd ag ystyr penodol yn Neddf 2006, fel "Gweinidogion Cymru".

¹³ [Dadleuon Tŷ'r Cyffredin 12 Mawrth 2013 c8WS](#)

¹⁴ [Deddf Llywodraeth Cymru 2006](#) (Pennod 32) [fel ar 9 Mai 2013]

¹⁵ Cynulliad Cenedlaethol Cymru, [Cofnod y Trafodion: Y Cyfarfod Llawn](#), 12 Mehefin 2012 [fel ar 9 Mai 2013]

¹⁶ [Dadleuon Tŷ'r Arglwyddi 18 Mehefin 2012 cGC125](#)

¹⁷ [Dadleuon Tŷ'r Cyffredin 3 Gorffennaf 2012 c187WH](#)

¹⁸ Swyddfa Cymru, [Papur Gwyrdd ar drefniadau etholiadol Cynulliad Cenedlaethol Cymru i'r dyfodol: Crynodeb o'r ymatebion](#), Tachwedd 2012 [fel ar 9 Mai 2013]

¹⁹ Guto Bebb, Madeline Moon a Peter Hain

²⁰ Christine Chapman, David Rees, Janice Gregory, Julie James, Julie Morgan, Ken Skates, Leighton Andrews, Lesley Griffiths, Mark Isherwood, Mike Hedges, Jeff Cuthbert

2.3.2. Awdurdodau tai lleol: cyfyngiadau ar ddyled cyfrif refeniw tai

Mae'r *Bil Tai (Cymru)* sydd yng Nghyfnod 1 yn y Cynulliad ar hyn o bryd yn gwneud darpariaethau i ddiddymu system Cymhorthdal y Cyfrif Refeniw Tai a chyflwyno *trefniadau hunangyllidol newydd i awdurdodau tai lleol*. Mae'r Memorandwm Esboniadol i'r Bil yn datgan:

The intention is to abolish the primary legislation that sets the framework for the system in Wales by repealing the relevant provisions and making appropriate transitional arrangements. In order to exit from the system, new powers will be provided for the Welsh Ministers to make determinations to:

(i) Set a settlement value and the procedures to be followed to enable each local housing authority to exit from the Housing Revenue

Account Subsidy system.

(ii) To amend the settlement value in the event of an error or a change in a matter that was taken into account in the settlement value.

As part of the exit agreement, HM Treasury require a housing-related borrowing limit to be set for local housing authorities. HM Treasury propose bringing forward the relevant provisions within **an appropriate UK Bill** [*Research Service emphasis*]. However, the legislative mechanism and timescales for setting borrowing limits for local housing authorities are currently under discussion.

Mae'r cymal hwn o fewn y Bil drafft yn caniatáu i'r Trysorlys bennu terfyn ar y lefel uchaf o ddyled tai y gellir mynd iddi yn gyfanredol gan awdurdodau tai lleol yng Nghymru, ac mae angen i Weinidogion Cymru benderfynu faint o ddyled tai y gall pob Awdurdod fynd iddi o fewn y terfyn hwnnw. Mae hyn yn creu system debyg yng Nghymru i'r hyn a ddefnyddir yn Lloegr yn rhinwedd adrannau 171 i 173 o *Ddeddf Lleoliaeth 2011*.

2.3.3. Comisiwn y Gyfraith

Yn 2012 cynhaliodd Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol y Cynulliad ymchwiliad i sefydlu awdurdodaeth ar wahân i Gymru. Gwrandawodd y Pwyllgor ar dystiolaeth ynghylch gwaith Comisiwn y Gyfraith ac roedd y rhan fwyaf o'r tystion o blaid cael rhyw fath o gorff i adolygu cyfraith Cymru. Argymhellodd y Pwyllgor y canlynol:

dylid sefydlu corff i adolygu'r broses o gydgrynhoi cyfraith Cymru ac i gynorthwyo â'r broses honno. Gallai corff o'r fath naill ai fod yn rhan o Gomisiwn y Gyfraith presennol ar gyfer Cymru a Lloegr neu'n gorff gwbl newydd.²¹

²¹ [Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, Ymchwiliad i sefydlu awdurdodaeth ar wahân i Gymru, Rhagfyr 2012 \[fel ar 18 Rhagfyr 2013\]](#)

Dadleua Nodiadau Esboniadol y Bil drafft nad yw pwerau Comisiwn y Gyfraith o ran y cyngor i Lywodraeth Cymru yn glir ar hyn o bryd. Ar hyn o bryd, dim ond adrannau Llywodraeth y DU sy'n cyfeirio materion diwygio'r gyfraith sy'n ymwneud â chyfraith Cymru a Lloegr, er y gall Llywodraeth Cymru wneud cais i'r adrannau hyn gyfeirio mater ar ran Llywodraeth Cymru.

Mae cymal 21 yn ychwanegu darpariaethau newydd ar *Ddeddf Comisiynau'r Gyfraith 1965* ("Deddf 1965") er mwyn cyflwyno dyletswydd newydd i Gomisiwn y Gyfraith roi cyngor a gwybodaeth i Weinidogion Cymru yn uniongyrchol. Mae hyn yn ei gwneud yn glir y gall Gweinidogion Cymru gyfeirio materion ynghylch diwygio'r gyfraith at Gomisiwn y Gyfraith ei hunain. Fodd bynnag, ni fydd y Bil drafft yn rhoi Gweinidogion Cymru yn yr un sefyllfa â Gweinidogion Llywodraeth y DU na Gweinidogion yr Alban, o ran Comisiwn y Gyfraith na Chomisiwn y Gyfraith yr Alban, yn y drefn honno. Er enghraifft, ni fydd dyletswydd ar Gomisiwn y Gyfraith i ddarparu Gweinidogion Cymru â rhaglen gynhwysfawr o waith cyfnerthu a diwygio cyfraith statud mewn meysydd datganoledig.

2.3.4. Prif Weinidog: dileu'r pŵer i ddynodi ar ôl diddymu'r Cynulliad

Mae'r cynnig hwn yn un technegol sy'n ychwanegu geiriad ychwanegol i *Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006* i egluro y bydd y Prif Weinidog yn cadw ei swydd os diddymir y Cynulliad, sef cyn etholiad. Ar hyn o bryd, mae adran 46 o *Ddeddf 2006* yn nodi y gall y Llywydd benodi rhywun i arfer swyddogaethau'r Prif Weinidog os bydd yn marw, os na all weithio neu os na fydd yn Aelod Cynulliad mwyach. Nid oedd yn fwriad i'r pŵer hwn gael ei arfer gan y Llywydd pan na fyddai'r Prif Weinidog yn Aelod Cynulliad mwyach, dim ond am fod y Cynulliad wedi'i ddiddymu. Mae cymal 5 o'r Bil drafft yn cywiro'r anghysondeb technegol hwn.

3. Y Bil drafft

Mae gan y Bil 26 o gymalau a dwy atodlen a chaiff ei rannu'n bedair rhan.

Rhan 1: y Cynulliad a'r Gweinidogion

Cymal 1: Amllder etholiadau cyffredinol arferol y Cynulliad

Pasiodd y Cynulliad gynnig ar 16 Mawrth 2011 a oedd yn galw i'w etholiadau gael eu hoedi flwyddyn er mwyn osgoi cyd-daro ag etholiadau San Steffan. Rhoddwyd hyn ar waith yn unol ag adran 5 o *Ddeddf Seneddau Tymor Sefydlog 2011* a symudodd ddyddiad etholiadau nesaf y Cynulliad o 7 Mai 2015 i 5 Mai 2016. Yn ôl y gyfraith fel y mae nawr, bydd y Cynulliad yn dychwelyd i'r tymhorau pedair blynedd ar ôl y dyddiad hwn, a fyddai'n golygu y gellid cyd-daro ag etholiadau San Steffan o hyd o bosibl.

Felly, mae cymal 1 yn diwygio adran 3(1) o *Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 fel y cynhelir etholiadau cyffredinol arferol y Cynulliad bob pum mlynedd*, yn hytrach na phob pedair blynedd fel y mae ar hyn o bryd. Byddai etholiadau nesaf y Cynulliad ar ôl 2016 yn 2021, a fyddai'n golygu osgoi cyd-daro ag etholiad San Steffan yn 2020. Mae hefyd yn dirymu adran 5 o *Ddeddf Seneddau Tymor Sefydlog 2011*, na fydd ei hangen mwyach.

Cymal 2: Codi'r gwaharddiad ar sefyll mewn etholiad ar gyfer etholaeth a rhanbarth etholiadol.

Mae cymal 2 yn diwygio adran 7 o *Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 i godi'r gwaharddiad ar sefyll fel ymgeisydd etholaethol a rhanbarthol yn etholiadau'r Cynulliad*. Fodd bynnag, ni all person sefyll fel ymgeisydd mewn etholaeth y tu allan i'r rhanbarth lle mae'n sefyll. Mae hefyd yn nodi na all ymgeisydd sydd ar restr plaid ranbarthol sefyll mewn etholaeth fel ymgeisydd ar gyfer plaid arall.

Mae'r cymal hefyd yn gwneud darpariaeth ar gyfer ymgeiswyr unigol sy'n sefyll ar restr ranbarthol: ni allant sefyll naill ai fel ymgeiswyr plaid mewn etholaeth yn y rhanbarth nac fel ymgeisydd ar gyfer etholaeth sydd y tu allan i'r rhanbarth hwnnw. Mae hefyd yn gwneud darpariaeth ar gyfer sut y caiff seddi ranbarthol eu dyrannu ar ôl codi'r gwaharddiad. Ni all swydd wag ranbarthol rhwng etholiadau cyffredinol gael ei llenwi gan ymgeisydd sydd ar restr plaid a gyflwynwyd yn yr etholiad cyffredinol blaenorol os cafodd yr ymgeisydd ei ethol yn yr etholiad hwnnw neu ei fod wedi'i ethol ers hynny yn un o isetholiadau etholaeth y Cynulliad.

Cymal 3: ASau i gael eu gwahardd rhag bod yn aelodau'r Cynulliad

Mae cymal 3 yn ychwanegu is-adran newydd (za) yn adran 16(1) o *Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006* i nodi y caiff **aelodau Tŷ'r Cyffredin eu gwahardd rhag bod yn aelodau'r Cynulliad**.

Mae adran newydd 17A(1) yn *Neddf Llywodraeth Cymru 2006* yn nodi pan gaiff AS ei ethol i'r Cynulliad, bod ganddo wyth diwrnod gras i ymddiswyddo o'i sedd yn Nhŷ'r Cyffredin cyn cael ei wahardd rhag bod yn AC.

Fodd bynnag, gall Aelod Cynulliad gael ei ethol yn AS a chadw'r ddwy swydd tan etholiad cyffredinol nesaf y Cynulliad, os cynhelir yr etholiad hwnnw o fewn chwe mis.

Ar y llaw arall, ni all AS a etholir i'r Cynulliad gadw'r ddwy sedd tan etholiad cyffredinol nesaf y DU, hyd yn oed os caiff ei gynnal o fewn chwe mis; mae'n rhaid iddo benderfynu, o fewn y cyfnod o wyth deg diwrnod y cyfeirir ato uchod, pa sedd i'w chadw.

Cymal 4: Llywodraeth Cymru

Mae cymal 4 yn caniatáu'r defnydd o'r term "**Llywodraeth Cymru**" mewn **dogfennau ffurfiol, cyfreithiol**. Caiff yr enw newydd hefyd ei ddefnyddio pryd bynnag y cyfeirir at yr enw yn *Neddf Llywodraeth Cymru 2006* neu ddeddfau, offerynnau neu ddogfennau eraill a wnaed cyn i gymal 4 o'r Bil ddod i rym.

Cymal 5: Prif Weinidog: dileu'r pŵer i ddynodi ar ôl diddymu'r Cynulliad

Mae cymal 5 yn ychwanegu geiriad newydd i adran 46(5)(c) o *Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006* i **egluro y bydd y Prif Weinidog yn cadw ei swydd os diddymir y Cynulliad**, h.y. cyn etholiad. Ar hyn o bryd, mae adran 46 o Ddeddf 2006 yn nodi y gall y Llywydd benodi rhywun i arfer swyddogaethau'r Prif Weinidog os bydd yn marw, os na all weithio neu os na fydd yn Aelod Cynulliad mwyach. Nid oedd yn fwriad i'r pŵer hwn gael ei arfer gan y Llywydd pan na fyddai'r Prif Weinidog yn Aelod Cynulliad mwyach, dim ond am fod y Cynulliad wedi'i ddiddymu. Mae cymal 5 o'r Bil drafft yn cywiro'r anghysondeb technegol hwn.

Rhan 2 Cyllid

Mae rhan 2 o'r Bil drafft yn caniatáu i'r Cynulliad **ddeddfu ynghylch trethiant datganoledig**. Mae'r trethi datganoledig a nodir yn y rhan hwn yn **dreth yng Nghymru ar drafodion sy'n cynnwys buddiannau mewn tir** (gan ddisodli treth dir y dreth stamp yng Nghymru) a **threth yng Nghymru ar waredu i safleoedd tirlenwi** (gan ddisodli'r dreth tirlenwi yng Nghymru). Gall trethi datganoledig newydd gael eu hychwanegu drwy Orchymyn y Cyfrin Gyngor.

Yn amodol ar bleidlais o blaid mewn **refferendwm**, caiff y Cynulliad hefyd bennu cyfradd yng Nghymru at y diben o gyfrifo cyfraddau'r **dreth incwm** sydd i'w thalu gan drethdalwyr Cymru.

Cymal 6: Trethiant: Cyflwyniad

Mae'r cymal hwn yn darparu'r **strwythur lle gall y Cynulliad ddeddfu ar dreth** drwy ychwanegu'r rhan 4A newydd yn *Neddf Llywodraeth Cymru 2006*. Yn ei hanfod, mae'n rhoi'r pŵer i'r Cynulliad ddeddfu mewn perthynas â "threthi datganoledig", fel y'u diffinnir yn y rhan 4A newydd.

Cymal 7: Gwelliannau sy'n ymwneud â'r Comisiynwyr Cyllid a Thollau

Mae cymal 7 yn diwygio *Deddf Comisiynwyr Cyllid a Thollau 2005* ("Deddf 2005") a *Deddf Rheoli Tollau Tramor a Chartref 1979* fel y gall **Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi ddatgelu gwybodaeth i Weinidogion Cymru** ynghylch trethi datganoledig; sicrhau bod gwybodaeth o'r fath yn gyfrinachol ac yn destun rheolaethau datgelu pellach; a sicrhau nad oes gan Gyllid a Thollau Ei Mawrhydi y pwerau na'r dyletswyddau statudol mewn perthynas â threthi datganoledig, a fydd yn fater i Weinidogion Cymru, tra'n rhoi cwrpas i Gyllid a Thollau Ei Mawrhydi weinyddu'r trethi hyn ar ran Gweinidogion Cymru os bydd am wneud hynny.

Cymal 8: Cyfradd y dreth incwm yng Nghymru

Mae cymal 8 yn ymdrin â **chyfradd y dreth incwm yng Nghymru**. Mae *is-adran* (1) yn ychwanegu pennod 2 yn y rhan 4A newydd o *Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006*, sy'n cynnwys adrannau 116C i 116I. Mae is-adran 2 yn nodi y daw'r adrannau a ychwanegwyd gan is-adran (1) i rym yn unol â chymal 12; h.y. i ddechrau byddai angen pleidlais mewn refferendwm o blaid y Cynulliad yn gallu pennu cyfradd y dreth incwm yng Nghymru, ac yna, byddai gan Drysorlys EM y pŵer i bennu'r flwyddyn dreth gyntaf lle byddai'r darpariaethau newydd yn dod i rym.

Trafodir y pŵer ei hun i'r Cynulliad bennu, drwy gynnig, cyfradd y dreth incwm yng Nghymru ar gyfer y trethdalwyr yng Nghymru, yn adran newydd 116C o *Ddeddf 2006*. Mae'r adran newydd hon hefyd yn nodi mai dim ond am un flwyddyn dreth y bydd pob cynnig ar gyfer cyfradd Cymru yn gymwys, a bod yn rhaid iddi fod yn un gyfradd o naill ai rif cyflawn neu hanner rhif (gweler isadrannau (3) - (6)).

Nid yw'r ddarpariaeth bod yn rhaid i'r cynnig ar gyfer cyfradd Cymru nodi un gyfradd yn golygu bod yn rhaid i'r Cynulliad bennu cyfradd safonol o dreth incwm i'r holl drethdalwyr yng Nghymru. Yn hytrach, golyga y gall y Cynulliad amrywio pob un o gyfraddau sylfaenol, cyfraddau uwch a chyfraddau ychwanegol y dreth incwm **yn ôl yr un nifer o bwyntiau canran** (ymdrinnir â hyn yng nghymal 9 (2) - (5)). I gyfrifo beth fyddai trethdalwr yng Nghymru yn ei dalu fel cyfradd sylfaenol y dreth incwm mewn unrhyw flwyddyn, byddai angen:

- Defnyddio'r gyfradd sylfaenol a bennwyd gan Senedd y DU ar gyfer y flwyddyn honno
- Didynnu 10 pwynt canran
- Ychwanegu cyfradd Cymru.

Felly, pe byddai cyfradd Cymru yn 9%, byddai trethdalwr yng Nghymru yn talu 1% yn llai na threthdalwr yn Lloegr. Byddai'r un peth yn gymwys i'r cyfraddau uwch a'r cyfraddau ychwanegol.

Gwelir o hyn na fyddai'r pŵer newydd i bennu cyfradd y dreth incwm yn galluogi'r Cynulliad i geisio ailddosbarthu cyfoeth drwy'r system dreth.

Elfen bwysig o'r system newydd yw pwy fydd yn cyfrif fel "trethdalwr yng Nghymru". Diffinnir hyn yn adran newydd 116D, a ychwanegwyd gan gymal 8. Mae'r diffiniad yn ceisio osgoi bod unigolion yn destun mwy nag un gyfundrefn drethu ar gyfer yr un incwm a'r un cyfnod, ond mae Llywodraeth y DU yn cydnabod bod angen gwneud mwy o waith i sicrhau na all person fod yn "trethdalwr yng Nghymru" yn ôl y Bil hwn, ac yn "trethdalwr yn yr Alban" yn ôl *Deddf yr Alban 1998*, ar gyfer yr un cyfnod.

Cymal 9: Treth incwm i drethdalwyr yng Nghymru

Mae cymal 9 yn diwygio *Deddf Treth Incwm 2007* ("Deddf 2007") a *Deddf Casglu Trethi Dros Dro 1968* ("Deddf 1968") sy'n ymwneud â threth incwm y trethdalwyr yng Nghymru. Mae'n diwygio adran 6(2A) a 6(2B) o Ddeddf 2007. Y bwriad yw sicrhau bod y trethdalwyr yng Nghymru yn talu cyfradd o dreth a gyfrifir yn unol â chyfradd Cymru a bennwyd o dan adran 116C ar eu hincwm heb gynilion, yn hytrach na'r cyfraddau a bennir gan y Senedd ar gyfer y flwyddyn honno. Gweler uchod effaith y darpariaethau hyn wrth gyfrifo'r gyfradd gymwys.

Mae cymal 9 hefyd yn ymdrin ag incwm o gynilion ac incwm o ddifidendau, a fydd yn aros yr un peth i drethdalwyr yng Nghymru â'r rhai yn Lloegr.

Cymal 10: Refferendwm ynghylch cyflwyno darpariaethau treth incwm a chymal 11 Cynnig o refferendwm gan y Cynulliad

Mae cymalau 10 ac 11 yn caniatáu cynnal refferendwm yng Nghymru ynghylch p'un a ddylai'r darpariaethau treth incwm, a nodir yng nghymalau 8 a 9, ddod i rym. Mae cymal 10 yn ei gwneud yn ofynnol cael **Gorchymyn drafft y Cyfrin Gyngor** sy'n achosi cynnal refferendwm wedi'i gymeradwyo gan ddau Dŷ'r Senedd a gan gynnig y Cynulliad, wedi'i basio gan o leiaf fwyafrif o ddwy ran o dair o Aelodau Cynulliad (h.y. o leiaf 40 o Aelodau Cynulliad yn pleidleisio o blaid). Os bydd y Cynulliad yn pasio cynnig yn galw am refferendwm (unwaith eto, gan o leiaf fwyafrif o ddwy ran o dair), mae cymal 11 yn ei gwneud yn ofynnol gosod Gorchymyn y Cyfrin Gyngor, neu bydd yn rhaid i'r Ysgrifennydd Gwladol egluro pam na wnaed hyn. **Byddai darpariaethau'r dreth incwm yn dod i rym drwy orchymyn Trysorlys EM**, a wnaed o dan gymal 12, pe byddai mwyafrif y pleidleiswyr mewn refferendwm yn pleidleisio o blaid hyn.

Cymal 12: Cyflwyno darpariaethau'r dreth incwm os bydd y mwyafrif o blaid hyn

Mae cymal 12 yn nodi'r **weithdrefn i roi darpariaethau'r dreth incwm ar waith os bydd y mwyafrif o'r pleidleiswyr mewn refferendwm yn pleidleisio o blaid hyn**. Mae'n rhoi'r pŵer i wneud gorchymyn o'r fath i Drysorlys EM. Gallai'r gorchymyn nodi diwrnod y daw darpariaethau'r dreth incwm (yng nghymalau 8 a 9) i rym, pennu blwyddyn dreth fel y flwyddyn gyntaf lle gellir gwneud cynnig ar gyfer cyfradd Cymru, neu bennu blwyddyn dreth neu flwyddyn ariannol lle bydd y darpariaethau'n weithredol. Gellir gwneud darpariaethau gwahanol ar gyfer gwahanol rannau o'r gwelliannau a wnaed gan gymalau 8 a 9.

Cymal 13 Treth Cymru ar drafodion sy'n ymwneud â buddiannau mewn tir a Chymal 14 datgymhwyso treth dir y dreth stamp y DU

Mae cymalau 13 ac 14 ar y cyd yn darparu'r **dull ar gyfer dirwyn i ben** y broses o gasglu a rheoli **treth dir y dreth stamp** yng Nghymru ac yn caniatáu i'r Cynulliad gyflwyno ei **dreth caffael buddiannau tir yng Nghymru** ei hun.

Mae cymal 13 yn cyflwyno pennod 3 newydd i ran 4A o *Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006*, sy'n diffinio cwmpas y dreth ddatganoeldig hon, (y caffaeliadau y bydd yn gymwys iddynt, y tir na fydd yn gymwys iddo a'r unigolion na fyddant yn atebol i'w thalu). Mae cymal 14 yn datgymhwyso treth dir y dreth stamp o drafodion tir yng Nghymru, o ddyddiad a bennir gan Drysorlys EM. Mae hyn yn sicrhau na fydd unrhyw drafodion tir yn destun trethiant dwbl. Mae atodlen 2 yn cynnwys rhagor o welliannau sy'n ymwneud â datgymhwyso treth dir y dreth stamp yng Nghymru ac yn rhoi gwybodaeth am drafodion tir yng Nghymru i Gyllid a Thollau EM.

Cymal 15: Treth Cymru ar waredu i safleoedd tirlenwi a Chymal 16: Datgymhwyso treth tirlenwi y DU

Ar hyn o bryd codir treth tirlenwi ar waredu gwastraff i safleoedd tirlenwi yng Nghymru a Lloegr. Mae cymalau 15 ac 16 ar y cyd yn darparu'r **dull ar gyfer dirwyn i ben y broses o gasglu a rheoli treth tirlenwi** yng Nghymru ac yn caniatáu i'r **Cynulliad gyflwyno ei dreth gwaredu i safleoedd tirlenwi** ei hun.

Mae cymal 15 yn cyflwyno pennod 4 newydd i ran 4A o *Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006*, sy'n nodi cwmpas pŵer Llywodraeth Cymru i gyflwyno treth ar achosion o waredu i safleoedd tirlenwi yng Nghymru. Mae cymal 16 yn datgymhwyso'r dreth tirlenwi o achosion o waredu yng Nghymru rhag tâl y dreth tirlenwi, o ddyddiad a bennir gan Drysorlys EM, er mwyn osgoi trethiant dwbl.

Cymal 17: Benthycu gan Weinidogion Cymru

Mae'r cymal hwn yn diwygio adrannau 121 a 122 o *Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006*, ac yn ychwanegu adran newydd 122A, i ddiwygio'r amgylchiadau lle gall **Gweinidogion Cymru fenthycu** a nodi'r prif reolaethau a chyfyngiadau ar achosion o fenthycu o'r fath.

Mae'r cymal yn caniatáu i Weinidogion Cymru fenthycu - at y dibenion canlynol:

- rheoli anweddolrwydd y flwyddyn o dderbynebau, pan fo incwm gwirioneddol ar gyfer cyfnod yn wahanol i'r derbynebau a ragwelwyd ar gyfer y cyfnod hwnnw;
- sicrhau cydbwysedd ar gyfer Cronfa Gyfunol Cymru er mwyn rheoli'r llif arian;

- ymdrin â'r gwahaniaethau rhwng y rhagolwg ar gyfer y flwyddyn gyfan a'r derbynebaw alldro ar gyfer trethi datganoledig, h.y. rheoli diffygion mewn blynyddoedd ariannol, yn ogystal ag o fewn blynyddoedd (yn amodol ar reolau Trysorlys EM); ac
- ariannu gwariant cyfalaf (yn amodol ar gymeradwyaeth Trysorlys EM a'r rheolau ar wariant cyfalaf).
- Nid yw'r pŵer newydd i fenthycu i ariannu gwariant cyfalaf wedi'i gyfyngu i fenthycu gan yr Ysgrifennydd Gwladol. Fodd bynnag, ni chaiff Weinidogion Cymru forgeisio eiddo fel diogelwch ar gyfer benthyciadau. Nid yw'r pŵer newydd ychwaith yn caniatáu i Weinidogion Cymru fenthycu arian fel ffordd o gyflwyno stoc benthyciad, fel bondiau neu fondiau'r llywodraeth. At ddibenion di-gyfalaf, dim ond gan yr Ysgrifennydd Gwladol y gall Gweinidogion Cymru fenthycu. Ar hyn o bryd, gall Gweinidogion Cymru fenthycu gan bobl eraill er mwyn cyflawni eu swyddogaethau o dan *Ddeddf Awdurdod Datblygu Cymru 1975* (yn ei hanfod, y swyddogaethau o ran hwyluso adfywiad a datblygiad economaidd) ond dim ond gan yr Ysgrifennydd Gwladol at ddibenion eraill.
- Mae'r Bil drafft hefyd yn cynnal y terfyn statudol presennol o £500 miliwn ar y swm cyfanredol y gall Gweinidogion Cymru ei fenthycu at ddibenion di-gyfalaf, ond yn caniatáu benthyca £500 miliwn arall ar gyfer gwariant cyfalaf. Yn y ddau achos, gellir newid y ffigur mwyaf yn y dyfodol yn unol â gorchymyn yr Ysgrifennydd Gwladol, yn amodol ar gydsyniad y Trysorlys a chymeradwyaeth Tŷ'r Cyffredin.

Cymal 18: Dirymu'r pwerau benthyca presennol

Mae'r cymal hwn yn dirymu pŵer Gweinidogion Cymru i fenthycu o dan Atodlen 3 i *Ddeddf Awdurdod Datblygu Cymru 1975*, yn ogystal â phŵer y Trysorlys i warantu benthyca o'r fath.

Cymal 19: Adroddiadau ar roi'r rhan hon ar waith a'i gweithredu

Mae'r cymal hwn yn nodi'r gofynion ar gyfer yr Ysgrifennydd Gwladol a Gweinidogion Cymru o ran adrodd ar roi'r pwerau cyllid newydd ar waith a'u gweithredu.

Rhan 3: Amrywiol

Cymal 20: Awdurdodau tai lleol: terfynau ar ddyled cyfrif refeniw tai

Mae cymal 20 yn diwygio rhan 6 o *Ddeddf Llywodraeth Leol a Thai 1989* ("Deddf 1989"). Mae hyn yn caniatáu i'r **Trysorlys bennu terfyn ar y lefel uchaf o ddyled tai** y gall awdurdodau tai lleol yng Nghymru fynd iddi, ac mae angen i **Weinidogion Cymru benderfynu faint o ddyled tai** y gall pob Awdurdod fynd iddi o fewn y terfyn hwnnw.

Cymal 21: Gwaith Comisiwn y Gyfraith hyd yma mewn perthynas â Chymru

Mae cymal 21 yn ychwanegu darpariaethau newydd at *Ddeddf Comisiynau'r Gyfraith 1965* ("Deddf 1965") er mwyn cyflwyno **dyletswydd newydd i Gomisiwn y Gyfraith roi cyngor a gwybodaeth i Weinidogion Cymru yn uniongyrchol**. Mae hyn yn ei gwneud yn glir y gall Gweinidogion Cymru gyfeirio materion ynghylch diwygio'r gyfraith i Gomisiwn y Gyfraith eu hunain. Fodd bynnag, ni fydd y Bil drafft yn rhoi Gweinidogion Cymru yn yr un sefyllfa â Gweinidogion Llywodraeth y DU na Gweinidogion yr Alban, o ran Comisiwn y Gyfraith na Chomisiwn y Gyfraith yr Alban, yn y drefn honno. Er enghraifft, ni fydd dyletswydd ar Gomisiwn y Gyfraith i ddarparu Gweinidogion Cymru â rhaglen gynhwysfawr o waith cyfnerthu a diwygio cyfraith statud mewn meysydd datganoledig.

Rhan 4: Cyffredinol

Cymal 22: Gorchmynion

Mae cymal 22 yn nodi y byddai unrhyw orchymyn a wneir o dan y Bil drafft yn cael ei wneud drwy offeryn statudol.

Cymal 23: Dehongli

Cymal 23 yw'r cymal dehongli ar gyfer y Bil drafft.

Cymal 24: Pŵer i wneud darpariaeth atodol, ôl-ddilynol ac ati

Mae cymal 24 yn rhoi pŵer i Drysorlys EM, drwy orchymyn, wneud darpariaethau atodol, achlysurol neu ôl-ddilynol fel yr ymddengys ei fod yn briodol mewn cysylltiad â dod â'r darpariaethau yn rhan 2 (cyllid) i rym.

Cymal 25: Cyflwyno

Mae cymal 25 yn nodi sut y dylid cyflwyno adrannau'r Bil.

Cymal 26: Rychwant a theitl byr

Mae cymal 26 yn nodi rychwant tiriogaethol a theitl byr y Bil.

4. Craffu cyn y broses ddeddfu

Bydd Pwyllgor Dethol ar Faterion Cymreig Tŷ'r Cyffredin ("y Pwyllgor Materion Cymreig") yn craffu ar y Bil drafft cyn y broses ddeddfu. Y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno tystiolaeth oedd 16 Ionawr 2014.

Gwahoddir y sawl sydd â diddordeb i ystyried y canlynol:

- A yw cynigion y Llywodraeth, fel y'u nodir yn y Bil drafft, o ran datganoli ariannol a threfniadau etholiadol y Cynulliad Cenedlaethol yn rhai cadarn? Os na, sut y gellid gwella'r Bil?
- A yw darpariaethau Bil drafft Cymru yn sicrhau bwriadau polisi Llywodraeth y DU? A ellid gwella neu newid geiriad y Bil drafft?
- Mae'r Pwyllgor Materion Cymreig yn arbennig yn croesawu awgrymiadau ynghylch gwelliannau neu addasiadau penodol i gymalau yn y Bil.

Dechreuodd y Pwyllgor Materion Cymreig cymryd tystiolaeth lafar ddydd Mawrth **14 Ionawr 2014**. Bwriad y Pwyllgor yw adrodd ddiwedd mis Mawrth 2014.